

BRYN-Y-BEDD

Mae mynwent Dolwyddelan yn cael sylw haeddiannol gan y Cyngor Cymuned a chefnogaeth gan y Cynghorydd Sir, Liz Roberts.

Mae tair Criafolen wedi eu plannu yno mewn gwely newydd addas, gyda grug yn eu amgylchynu, i ddathlu Jiwibili Platinwm y Frenhines.

Cyflwynwyd y coed gan Gangen Conwy o'r YDCW (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), a chawsant eu plannu gan eu Cadeirydd Joyce Hughes.

Pan gysylltodd Joyce gyda Phil Vipond, Swyddog Amgylchedd y Cyngor Sir, awgrymodd ef ardal Dolwyddelan ar gyfer y plannu ac yn garedig iawn dygwyd y coed yno gan aelodau o'i staff.

Gwyn Roberts



Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn . . .

Cadair Olwyn - £5 y dydd

Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)

Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol

Teclyn siampwio Carpedi - £10 y dydd - Glanhawr Mannau

Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 y dydd



Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan . . .

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . . Bob Valintine 01690 750 205

Paul Donnelly 07534 120 193. Teleri Jones 07776 192 297

Eunice Cawley 01690 750 268

Brif Ystafell	Busnes	Lleol / Elusen
Cyfradd yr Awr	£25	£10
Hanner Diwrnod	£50	£20
Diwrnod Llawn	£75	£35